

## Y Minc yng Ngwynedd



Minc a welais ger Coed Coedrhygen ar Lyn Traws. O'n i 'di gweld coes a throed hwyaden ar ben craig fach y diwrnod cynt ac yn meddwl pa fath o greadur fyddai wedi gwneud hyn...mae'n debyg mai'r minc oedd y bai?

Mwy am y minc, tudalen 2



Lluniau a chapsiwn: Keith O'Brien

### Gwningod - ail ran

Y Normaniaid gyflwynodd wningod gynta i wledydd Prydain, ac mae Gerallt Gymro yn son amdany'n nhw ym Mhenfro yn y 12 ganrif. Roedd gwningod yn cael eu magu un ai ar ynys, neu mewn lle a elwid yn wning-gaer, neu warin oedd, fel arfer, ar dir tywodlyd, hawdd ei dyllu, fel twyni tywod ger yr arfordir. Mi fyddai pobol yn ffarmio'r gwningod, ac yn eu harbed rhag adar ysglyfaethus, llwynogod, a lladron deudroed. Mi welwch chi "Gwningar" a "Warin" yn enwau lleoedd mewn sawl ardal. Mi barhaodd yr arfer o fagu gwningod fel hyn am ganrifoedd ac, yn y 18g, mi fyddai amryw o stadau cefn gwlad yn cadw gwning-gaerydd. Ond er i wningod ddianc i diroedd amaethyddol cyfagos wnaethon nhw ddim cynyddu'n ormodol am fod digon o lwynogod, carlymod ac yn y blaen. Ond, wrth i'r rhain gael eu difa gan giperiaid yn yr 19g, ac wrth i diroedd gael eu cau a niferoedd gwartheg a defaid gynyddu, cynyddu wnaeth y gwningod hefyd. Effaith cynyddu'r stoc amaethyddol oedd creu llawer mwy o'r porfeydd byr y mae gwningod mor hoff ohonyn nhw. O ganlyniad mi ddaeth gwningod yn bla go iawn erbyn dechrau'r 20g. Ddiwedd y 19g mi fyddai dynion yn gweithio fwy neu lai'n llawn amser yn dal gwningod ar gyfer y mwynwyr yn y gweithfeydd aur yn ardal Dolgellau. Ond roedd angen bod yn ofalus, rhag tramgwyddo yn erbyn ciperiaid y Stadau lleol. Ond roedd gwningod wedi dwad yn gymaint o bla yn y diwedd nes caniateid i wningwyr proffesiynol i'w dal nhw efo ffureti, maglau ac yn arbennig y "rhwyd fawr" oedd yn cael ei gosod mewn cae yn ystod nos a honno'n ymestyn am ugeiniau o lathenni. Adeg y rhyfel roedd gwningod yn cael eu dal yn eu miliynnau i fwydo pobol y dinasoedd. Ond er gwaetha'r holl hela, roedd niferoedd y gwningod yn dal yn uchel – am eu bod yn magu mor eithriadol o gyflym! Yna, yn 1953, mi newidiodd pethau'n llwyr pan ledodd y clwy' gwningod, myxamatoxis, neu'r micsi, drwy'r wlad. Erbyn 1955 roedd 98% o wningod Cymru yn gelain. Yn 1897 y canfyddwyd y micsi gynta, yn Uruguay, pan fu i stoc o wningod Ewropeaidd, mewn labordy ym Montevideo, farw bron i gyd efo'r syptomau ddaeth yn adnabyddus fel y myxamatoxis. Mi gymerodd tan 1942 i ddeall o le daeth y feirws, mai wedi ei gludo oedd o i'r rhai Ewropeaidd dof gan fogsitos o wningod gwyllt de America – sy'n eitha imiwn i'r clwy. Mi welwyd, cyn gynhared a 1927, bod potensial mawr i'r micsi i reoli gwningod (yn heintio fawr ddim arall) a chynhaliwyd treialon i hynny, yma yng Nghymru a Lloegr yn 1936 ac yn Awstralia yn 1938. Ar Ynys Skokholm yn Sir Benfro y cynhaliwyd y treialon Cymreig, ac mae disgrifiad RM Lockley o hynny yn ei lyfr *The Private Life of the Rabbit* (1965) yn glasur. Methiant oedd y treialon Cymreig oherwydd, er gwaetha cyflwyno ac ail gyflwyno'r clwy, chydig iawn o wningod a laddwyd – heblaw y rhai oedd wedi eu heintio yn fwriadol yn y lle cynta. Ond roedd y clwy'n gwneud ei waith yn iawn yn ne Lloegr. Fe gymerodd tan y 1950au i ddeallt pam. A'r rheswm? Doedd dim chwain ar wningod Skokholm i'w ledu o, tra bod na rai ar wningod y tir mawr. Penderfynwyd peidio'i gyflwyno (am ei fod yn greulon). Ond, pan ddaeth y micsi, o Ffrainc, yn anghyfreithlon, i dde Lloegr yn 1953 mi ledodd fel tân gwyllt, am fod y chwain yn gwneud gwaith y mosgitos yn ne America ag Awstralia. Bu adferiad graddol ers hynny wrth i wningod fagu imiwnedd yn raddol bach ond go brin y cynyddan nhw byth i'r niferoedd plagus blaenorol.

script Twm Elias, Galwad Cynnar, Mawrth 5ed, 2011 gyda chaniatad Radio Cymru

## Cystaleuaeth y mis



Tocyn llyfr £10 i'r cyntaf i ddweud o ba air Lladin mae enw'r ddiweddi hon wedi dod....

trwy'r ddolen gyswllt ar y wefan

Doedd dim enillydd i gystadleuaeth mis Mai. Patrwm brychan y dŵr oedd yn y llun, ac mi roedd yr ateb i'w gael yn ORIEL Llên Natur

## Y minc yng Ngwynedd

Dilyniant o'r dudalen flaen.....Tan yn ddiweddar, ac yn wahanol i weddill Cymru, roedd Gwynedd yn *mink-free zone*. Dyma gofnodion cyntaf yr estron niweidiol hwn yn nyddiadur Llên Natur:

10 Mawrth 1992: minc ar y lôn yn farw, Seimon Evans, Trawsfynydd [ni wn am unrhyw gofnod yn y sir cyn hwn, Gol.]

5 Mawrth 1997: tua rwan minc ar y cob ym Mhorthmadog yn fflat ar y lon. Twm Elias wedi adrodd, wedyn Gwilym Arthur a'i gasglodd, marc gwyn ar y gen

17 Rhagfyr 1997: minc wedi ei ladd ar y cob, Port, Twm Elias (un arall tua'r haf, Llandecwyn - Ann Tomos)

4 Mawrth 1998: Ken Bellaport yn son ei fod wedi cael minc y tu allan i Bermo. Soniodd am anifail maint ffwlbart, dim gwyn a chynffon fer - cofnod saff

19 Awst 2001: bachgen o'r Bwrdd Dŵr wedi reportio minc ar yr Afon Llyfni, yn fyw gynta ac wedyn wedi ei ladd gan gar - dal yn gynnes. Gwyn o dan yr en.



A dyma pam mae'r minc yn cael y fath enw drwg - dywedir iddo fod yn gyfrifol am ddiwodiant llygoden bengron y dŵr. Diolch i Jonathan am y llun (chwith) a'r sylw: "Mi es i am dro ar y 13 Mawrth 2011 ar hyd rhan o Gamlas Cromford ac wedyn i fyny

trwy hen chwarel a choed. Roedd naws gwanwyn ar y coed efo digonedd o graf y geifr yn tyfu, ond doedd dim golwg o riff llyffant eto. Ond wnaethon ni weld rhyw fath o lygoden bengron yn bwyta wrth ochr y gamlas. Roedd hi'n eithaf bach, felly dyma holiad, pengron y dŵr ifanc yw hi neu bengron y gwair?

## Tresi aur



Mae nifer fawr o goed tresi aur ar y cloddiau ar y tiroedd uchel yn ardal triongl rhwng Llambod, Aberaeron a Chaerfyrddin. Y llynedd, (sef dyddiad y llun hwn), roedd y coed ar ei gorau blodeuol yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Mehefin. Eleni, 2011, maent bron ar eu gorau ddechrau yr ail wythnos ym mis Mai dair wythnos ynghynt ac efallai yn fwy tymhorol na'r llynedd pan oeddent yn hwyr iawn.

Llun a sylw: Ieuan Roberts

Am y tresi aur yma sydd i'w gweld ar y draffordd rhwng Synod Inn ac Aberaeron, yn ôl pob tebyg capteniaid y llongau lleol oedd yn dod yn ôl a phlanhigion o wledydd tramor ac yn eu dosbarthu yn yr ardal. A ydi hyn yn wir fedrai ddim dweud.

Bryan Jones

## Y Ffenigl Enfawr

Ar ôl sgwrs ffôn efo Sue Lindsay o Solihull, dyma gynnwys ebost ganddi am y planhigyn dirgel a welodd yn Cyprus yn ddiweddar. "Here is the plant I was on about in Cyprus" meddai. Wel Sue, mae'n debyg mai'r ffenigl enfawr ydi hwn,



*Ferula communis*. Meddai Polunin a Huxley yn Flowers of the Mediterranean: *The dried pith is used as tinder; it burns very slowly inside the stem and can thus be carried alight from place to place. Thus Hesiod describes Prometheus as bringing the fire he stole from Heaven 'in a ferula'. In some parts of the Mediterranean the stems are used to make furniture.* Dywed Maberley (*Maberley's Plant Book, CUP 2008*)

fel hyn: "scapes formerly used for furniture (Cyprus), tipped with a pine cone [NID oes cysylltiad yma a'r gair 'ferrule' - y peth sydd ar flaen ffon gerdded i'w hamddiffyn. Mae hwnnw'n gytras a'r Ffraneg *virole*, sef modrwy ar Bunsen burner i reoli'r fflam meddai Dominig Kervegant]. "Etre sous la ferule d'une personne" meddai Ffrancwyr ("i fod dan y lach" meddwn ninnau. "le nom ferule est issue de ferula"...planhigyn meddai'r dyddiaduron Ffrangeg y defnyddir y goes fel ffon i "gywiro" plant anystywallt. Fe'i defnyddir hefyd i awgrymu bod o dan awdurdod creulon teyrn. Ewch i Fwletin 31 i gael hanes yr efwr enfawr.

## Cwlwm - yr hanes yn parhau

Darllen am Cwlwm yn y Bwletin diweddara, daeth i'm cof am fy ngwyliau Pasg yn fferm fy ewythr pan oeddwn tua tair ar ddeg. Fy ngwaith ar ddiwrnod gwlyb fyddai gwneud 'pele mond' gan dyna beth oeddent yn cael ei galw yn Shir Gâr. Cymysgu llwch y glo a siment ar llawr y 'cartws' ac yna rhoi hen bapurau newydd ar y llawr ac yna gorwedd y pele ar hyn. Ar ôl gorchuddio tua tri neu bedwar llathed tua pedwar modfedd o drwch, rhedeg blaen y rhaw trwyddo i wneud sgwarie bach tua chwe modfedd sgwar. Nid fy hoff waith o bell ffordd

Bryan Jones, Llangammarch

## O'r Dyddiadur

John Owen Hughes, Bwlchtocyn yn gosod tatws ar 14 Ebrill 1931. Ar y llaw arall ar 23 Mai 1851 roedd Edward Evans, Parsele, Gogledd Penfro yn "Penud seti tato" (h.y. gorffen plannu tatws).

Ia, mae dipyn o amrywiaeth tymor plannu tatws rhwng de a gogledd a blynyddoedd hefyd mae'n siwr. Braff gweld defnydd ymchwil yn cael ei wneud o'r Dyddiadur ar-lein John. Melys moes mwy Gol.

## Hapus eich byd...?

Ydych chi'n fodlon ar y BWLETIN? Ydy'r cynnwys wrth eich bodd? Hoffech chi weld mwy o luniau - ynteu llai? A fyddai'n well gennych weld llai o eitemau mwy swmpus, ynteu mwy o fân eitemau? Ydych chi'n hoffi'r modd mae'n cael ei gysodi? Ynteu ydi'r Bwletin yn berffaith fel ag y mae? Deudwch chi - mae gennym groen fel eliffant.

*Cenllysg Arswydus Corwen 29 Mehefin 1820*

## Wrglo

Hugh Jones, Llansilin yn chwalo tail yn weirglodd fach ar 14 Ebrill 1931. D. Edward Evans ar 29 Mai 1851 yn torri cwter newydd o'r wrglo (weirglodd). Mae'r gair WRGLO yn dal i'w ddefnyddio yn Sir Benfro. Clywais ei ddefnyddio mewn pregeth yn y gwasanaeth Cymraeg yn Hwlfordd ychydig wythnosau yn ôl.

John Lloyd Jones, Pelcombe

## Cwmwl cenillysg

Cwmwl yma ychydig cyn 7pm, 13 Mai 2011, ymhen munudau cafwyd cawod o genillysg gyda glaw yn ei ddilyn.

Llun a sylw: Ifor Williams

Dyna'n union welish i yr un pryd o Waunfawr, a chenillysg hefyd (Gol). Meddai Huw Holland Jones: *Ifor's photo is very good. Yes, recorded hail at 7pm last night and made note of the rarely seen "roll cloud" or "arcus" to give it its official meteorological name. Definition of "arcus" or "roll*



Llun: Ifor Williams

*cloud" is "a dense horizontal roll with more or less tattered edges, situated on the lower advancing part of certain clouds and having the appearance of a dark menacing*

*arch. The roll cloud is usually associated with cumulonimbus. [Swyddfa Dywydd: Observer's Handbook]. Another definition (this time from the Oxford Dictionary of Weather) "a relatively rare, low, horizontal roll of cloud that accompanies a cold front" (which was the case last night..the cold front went through at about 7pm, notice how cold the air suddenly went after 7pm). "It can also accompany a line squall or a thunderstorm gust front. It is completely detached from the main cloud mass, and normally appears to be rotating about a horizontal axis. My sister at Abersoch told me they had torrential rain and thunder at about the same time, also dark menacing clouds.*

## Y tywydd yn troi

Coedwig Gwydir, Llanrwst, ar ôl cawod o law, Mai 5ed, 2011 Dyma'r diwrnod y daeth syched gwanwyn 2011 i ben, a diwedd ar yr



Llun: Alun Williams

Ebrill poethaf erioed.

*The shreds of mist that hang about after rain over forests and woods are a type of stratus cloud, rather similar to pannus cloud. After a spell of rain the wind often falls; the air above a forest is very humid after the rain (enhanced by the already humid conditions that exist over forests owing to transpiration). The air in and just above a forest tends to be cooler than in the open (owing to the shade effect of the trees) so the moisture in the enhanced humidity after the*

*rain (and during the rainfall) condenses in the cooler air in and over the forest to form shreds of mist. When the rain ceases the mist tends to rise a little above the forest in rising air currents ( just like fog may lift above the ground to form a layer of low cloud). Finally, as the wind picks up, the air gets warmer and the sun gets to work, the mist is dispersed..*

## La Chasse aux Hannetons



...neu Hela'r Chwilen Fai. (neu yn nhafodiaith y Walon, Gwlad Belg, *Li Tchèse aux Balouches*). "Ddechrau'r 20g. bu llywodraeth Gwlad Belg yn ymwybodol o'r difrod achoswyd gan y chwilen hon a gorchmynnwyd i bob

ysgol wledig 'hela'r chwiled i'r eithaf' - "*le hannetonnage à outrance*". Yn ystod blynyddoedd y rhyfel gwelwyd dylifiad wirioneddol fawr o'r pryfed hyn sydd bellach "diolch fyth" wedi diflannu o'r tir. Roedd y "*chasse aux hannetons*" yn hoff chwarae gan y plant - ar ôl ysgwyd y perthi, am y cyntaf i gasglu'r mwyaf o'r creaduriaid a ddisgynai i'r llawr. Yna ar ôl eu clymu wrth y gynffon ar edefyn hir, eu siglo fel barcutan fach o gwmpas eu pennau. "Sbort" arall oedd ei glymu wrth edefyn i ddrôr blwch matsis wedi ei lenwi gyda balast o dywod neu raean. Yna gafael yn y chwiled harneisiog hyn nes cael yr arwydd i'w gollwng, ac fel yn rasmus Ben Hur - am y cyntaf i'r postyn ennill.

## Y Chwilen Fai ym mis Ebrill

Mae'n dod yn gwbl amlwg mor eithriadol o gynnar ydi tymor y gwanwyn eleni Daliodd Dominig Kervegant ei chwilen Fai gyntaf yn Nhregarth ar y 19 Ebrill a Twm Elias yn cael un yn Nebo ar yr 20 Ebrill. Pryd mae tymor arferol y chwilen hon. Dyma ddod o hyd i 9 o gofnodion y pryf hwn yn nhrap gwyfynod Gwelfor, Waunfawr ers 1998. Y dyddiad cynharaf cyn hyn oedd 4 Mai 2007 a'r hwyraf oedd y 29 Mai yn 2003. Cyfartaledd y dyddiadau yw 19 Mai. Mae chwilen y Llydawr mwyn o Dregarth felly yn gynnar o fis cyfan - anhygoe!!



Roedd y diweddar naturiaethwr Wil Jones Croesor yn hoffi cymharu tor du a gwyn y chwilen Fai gyda Everton mint! Mae siwr y byddai'r tebygwdd yn darfod rhywle rhwng ei lygad a'i daford!

## Dyfeisgarwch Taid



Rydym oll wedi sylwi ar rhyw glicied neu declyn na welwyd o'r blaen sydd yn fynegiant o ddyfeisgarwch pobl cefn gwlad ers stalwm - a dal i fod mae'n siwr. Tynnwyd clicied y giat hon yn Nhyddyn Gwyn, Llangian yn ddiweddar. Dewch a'ch enghreifftiau eraill i'r gronfa.

*29ain Mehefin 1927, diffyg ar yr haul*

## Golfan coryn gwyn



Dyma lun aderyn prin iawn mewn rhan o ffenestr Eglwys, Cley, Norfolk. Aderyn o Ogledd America ydi'r golfan coryn gwyn. Daeth cannoedd o adarwyr i Cley

i weld yr aderyn yma ym mis Ionawr 2008, pob un yn rhoi rhodd at drwsio yr Eglwys hynafol, a dyma pam bod yr aderyn yn rhan o'r ffenestr.


Llun: Paula Williams

Mae'r gwaith o lunio enwau Cymraeg ar Adar y Byd yn dal i fynd rhagddo dan ofal Davyth Feare. Mawr fu'r gwaith a mawr yw'r disgwyl ond dyma damaid i aros pryd, sef yr enw Cymraeg am y *white-crowned sparrow*

## Tyrchod Aberdaron




TYRCHOD WILLIAM JONES fesul mis, Aberdaron 1887-1896



Rhwng 1867 a 1896 daliodd y ffermwr William Jones, Moelfre, Aberdaron 128 o dyrchod, a'u hoelio mae'n siwr ar wal neu bostyn (oedd yna weiren bigog yr adeg honno?). Ym mis Chwefror y daliodd y nifer mwyaf. Fferm wrth ymyl Moelfre yw Bodernabwy (llun uchod), lle mae tyrchod yn bla o hyd!

Lluniwyd y graff uchod o gofnodion dyddiadur William Jones. Pam tybed mai yn y gaeaf yn unig y bu'n dal ei dyrchod. Ai oherwydd mai dyna pryd y mai'r tomenni yn fwyaf amlwg - oherwydd trefn naturiol y creadur? Ynteu ai dyna pryd y bu'r amser ganddo i wneud hyn, cyn prysurdeb y gwanwyn? Ynteu ai (fel yr awgrymodd Trefor Beech, tyrchwyr o'r Waunfawr) ceisio cael trefn ar y boblogaeth tyrchod cyn iddo ddechrau plannu ei gnydau? Y trydydd esboniad oedd y mwyaf tebygol yn ei dyb o.

## Os nad yw 'en glir mae 'e'n ddigon!



Mae pawb yn gallu cyfrannu gwybodaeth gwerthfawr am ein cyd-greaduriaid a phlanhigion y dyddiau hyn. Dyma lun a dderbynwyd yn ddiweddar gan Arfona Jones a dynnodd ar ei gwyliau yn Sir Benfro ym mis Ebrill eleni. Rwan 'ta, Arfona fyddai'r gyntaf i gyuno nad y llun gorau a dynnwyd erioed o wyfyn ydi hwn. Ond os nad yw 'e'n glir, mae 'e'n ddigon! Digon, hynny yw, i ddweud mai gwyfyn arbennig iawn sydd yma - y gwyfyn gludlys cleisiog. Ac fel y gwelwch o'r map mae ei gadarnle yn yr ardal dan sylw. Esiampl felly i bawb - tynnwch lun! Mae llun ymysg y pethau rhataf erbyn hyn - ac mi all fod yn drysor.

## Gwyfynod cynnar 2011

Welsoch eisoes hanes y chwilen Fai gynnar ar dudalen 3. Meddai Norman Lowe, trefnydd GMSCymru (prosiect



monitro gwyfynod y gerddi): "I imagine that like the rest of us you are finding that things are flying early due to the high soil temperatures.". Dyma fesuriadau tymheredd y pridd o'i gymharu â chyfartaledd y blynyddoedd diwethaf gan Don Perkins, Llansadwrn <http://www.llansadwrn-wx.co.uk/> Dyma'r gwyfynod a ddaliwyd yng ngardd Gwelfor, Waunfawr, ar y 26ain Ebrill eleni (sef wythnos 17 ar y raddfa 1-52) a oedd yn gynnar neu'n gynnar iawn. Y ffigwr mewn cromfachau yw'r wythnos gyntaf y cafodd y rhywogaeth dan sylw ei dal yn yr ardd cyn hynny (o 1996 ymlaen): fforch arian\* (20), blaen brigyn\* (21), rhesen wen y rhedyn (18), carpiog lloerenog\* (21). Mae'n debyg mai mewn fudwr o ddeheuon y cyfandir oedd y fforch arian. Cafwyd dart tywyll\* hefyd yn y trap, mewn fudwr yn ddi-os (gweler Bwletin 39 hefyd). Mae lluniau o'r gwyfynod wedi eu marcio â seren i'w gweld yn yr ORIEL.

Mwy am y blaen brigyn ym Mwletin 8 (tudalen 3). Ewch i GEIRIADUR ENWAU A THERMAU ar y wefan am enwau eraill ar y rhywogaethau hyn. A dyma sylw Bryan Jones, Llangammarch: Y chwilen Fai gyntaf i mi y flwyddyn hon oedd 22 Ebrill. Dyma i ti grynodedd o ddyddiadau cynhara eleni a chynt, ac fel y gweli maent bron popeth yn gynnar.

rhisglyn brith -2010 - 9/4/10 - 2011 - 25/3/11

2190 - crynwr gothig 2008 - 4/4 - 2011 - 17/3

1957 - gwyn dau smotyn 2010 - 21/5 - 2011 - 22/4.....

Mae'r gweddill i'w gweld yn ORIEL Llên Natur.